
Theatr Iolo

# Pwnc Pump

## Amser a Lle



# Pam mae Lle yn bwysig?

Mae'n rhaid i'r ddrama ddigwydd mewn lle (ne lefydd) penodol ac o fewn amser penodol.

Pan fyddwch chi'n sgrifennu drama i'r llwyfan, gallwch fynd lle mynnwch chi am gyhyd ag y mynnwch chi am eich bod yn gallu gofyn i'r gynulleidfa ddefnyddio'u dychymyg.

Mae lle mae'ch drama chi'n digwydd yn siapio be allai ddigwydd, ond nid bob amser.

## Er enghraifft:

Os ydi'ch drama chi'n digwydd ar y lleuad, be allai ddigwydd yno? Am be allai'r ddrama fod?



- Gofodwr wedi'i adael yn y gofod
- Y dyn yn y lleuad yn dod i ben ei gaws
- Anghenfil anfad sy'n ceisio rhwystro i'n nos ni ddigwydd drwy ddwyn y lleuad
- Y teulu cynta sy wedi mynd i fyw ar y lleuad am na does yna ddim lle ar ôl ar y ddaear

## Allwch chi feddwl am enghreifftiau?

Mae yna rai straeon fyddai'n cyd-fynd â lleoliad ar y lleuad yn well nag eraill, a rhai amgylchiadau allai siapio eich drama.

Be petai pawb yn byw ar y lleuad ac wedi dod i ben eu siwtiau gofod, be fyddai'n digwydd wedyn? Be fyddai'r problemau? Sut byddai modd eu datrys nhw?

Fodd bynnag, petai'r ddrama'n digwydd ym Mhontypridd, dydi dod i ben siwtiau gofod yn fawr o broblem.

**TIP ARDDERCHOG: Mwya'r lle, mwya'n y byd y bydd y ddrama. Mae rhai o'r dramâu gorau'n syml iawn.**

## Llefydd posib y gallai eich drama chi ddigwydd...

| | |
|---|---|
| Yn eich pen chi'ch hun | Mewn cwpwrdd cudd yn eich stafell wely |
| Yn eich cegin | Drwy'r byd yn grwn |
| Lan lofft yn eich tŷ chi | Yn eich tŷ chi drwyddo draw |
| Yn eich tref | Ar eich stryd |

Ar y coridorau'r tu allan i fflatiau gan gynnwys man y lifftiau

Yn y taflodau ar hyd yr holl dai yn eich stryd chi

Fe allech gael bod arnoch chi eisiau sgrifennu stori fawr, gyffrous lle mae'n rhaid i gymeriadau gwblhau tasgau anodd iawn er mwyn achub y byd neu'r holl blanedau rhag drygioni.

Fe allech fod am sgrifennu stori symlach allai ddigwydd mewn lle rydych yn gyfarwydd iawn ag ef.

# Mathau o Lefydd

TIP ARDDERCHOG: Fe all rhai llefydd fod yn gyffrous neu'n wahanol, ond cofiwch fod llefydd diflas yn gallu bod yn gyffrous hefyd.

**Llefydd Pob Dydd:** Llefydd ydi'r rhain rydych yn gyfarwydd iawn â nhw yn eich bywyd eich hun: Cartref, ysgol, car, parc, siopau, tŷ nain a taid, llyfrgell, caffi neu dŷ ffrind.

**Gwyliau a Llefydd Achlysuron Arbennig:** Ar lan y môr, ar drip diwrnod, ar drip ysgol (yn cynnwys y bys i fynd â chi yno), ar wyliau gyda'r teulu, ar ddiwrnod carnifal, mewn parti teulu, mewn gêm bwysig, yn y pictiwrs neu mewn parti Nos Glangaea.

**Llefydd Pell:** Yr Arctig, gwylltir Awstralia, gwaelod y cefnfor, y Lleuad, ar gopa Eferest, ar hwylbren llong, dan y ddaear neu ym mherfedd y Ddaear.

**Llefydd Hud:** Byd hud a lledrith, y gorffennol, y dyfodol, y tu mewn i'r corff, byd arall heb fodau dynol ynddo, byd y tu mewn i lyfr, hedfan gyda'r adar neu nofio gyda physgod neu eich Byd eich hun wedi'i weddnewid.

**Does dim rhaid i chi ddewis dim ond un o'r llefydd yma ar gyfer eich drama, allech chi gychwyn mewn un lleoliad ac wedyn yn sydyn mynd â'ch cymeriadau i le gwahanol iawn cyn dod adre'n ôl.**







## Allwch chi feddwl am unrhyw lefydd eraill allai fod yn dda i sgrifennu drama amdanyn nhw?

### Dewiswch un lle a meddwl am y pethau sy'n dilyn:

- Be ydi rheolau'r lle yma? Be gewch chi ac na chewch chi ei wneud? Os ydi hwn yn fyd rhyfedd neu hud, cofiwch ymorol bod y rheolau i gyd yn dal dŵr - hyd yn oed os ydyn nhw'n hudol.
- Pa fath o sbardun allai ddigwydd yn y lle yma? Fe allai ffrindiau ffraeo, fe allai fod yna daith neu chwilio neu wrthdaro.
- Sut y gall y lle siapio'r problemau a'r rhwystrau mae'r cymeriad yn eu hwynebu?  Ydi hi'n oer iawn, neu'n boeth, neu'n wyntog neu'n lawog? Ydi hwn yn fyd lle does dim bwyd, dim ond melysion i'w bwyta? Ydi hwn yn fyd heb na nos na dydd?

**Mwya o fanylion y gallwch chi feddwl amdanyn nhw, mwya'n y byd y gall hyn fwydo i'ch stori.**

# Pam mae Amser yn Bwysig?

**TIP ARDDERCHOG: Gwnewch eich gorau i gydweddu'r fframwaith amser â'r math o stori rydych am ei hadrodd.**

Mae faint o amser sy'n mynd heibio mewn drama yn gallu effeithio ar y math o ddrama rydych chi'n ei sgrifennu.

Er enghraifft, os oes arnoch chi eisiau adrodd hanes cyfan rhywun sy'n gant oed, dim ond rhannau bychain o'r stori y gallech chi'u hadrodd, neu byddai'r ddrama'n rhy hir.

Os ydi'ch drama chi'n digwydd dros un pnawn, efallai y byddai angen llawer o fynd cyflym a newid er mwyn cael gwybod y stori. Ond, os bydd yn digwydd yn rhy gyflym, efallai na fydd yn gredadwy.

## Graddfeydd amser posib:

- Dros un diwrnod cyflawn
- Dros y Sul
- Dros wythnos
- Dros fis
- Dros wyliau haf yr ysgol
- Dros flwyddyn
- Dros ddwy flynedd
- Dros ddeng mlynedd
- Dros hanner can mlynedd



Petai arnoch chi eisiau sgrifennu am y tro wnaeth Dewi a'i ffrindiau ladd hamster Leon ar ddamwain, fyddai fframwaith amser hanner can mlynedd ddim yn gweithio'n dda iawn. Mae'n debyg y byddai'n gweithio'n well yn digwydd dros ddiwrnod.

Petaech chi am adrodd stori bywyd rhwyun, byddai gofyn i'r ddrama ddigwydd dros gyfnod hwy ac fe allai hefyd neidio'n ôl ac ymlaen mewn amser. Mae amser, run fath â lle, yn gallu bod yn hudol, felly gallwch fynd â phobl i wahanol gyfnodau gan ddefnyddio technegau dramatig a'r dychymyg.

## Dewisiadau fframwaith amser posib:

- Mae'r ddrama i gyd yn digwydd yn yr amser presennol o flaen ein llygaid.
- Mae'r ddrama'n neidio'n ôl ac ymlaen rhwng y presennol a'r gorffennol.
- Mae'r ddrama'n neidio o'r presennol i'r dyfodol.
- Mae'r ddrama i gyd yn digwydd mewn oes wahanol, e.e. yn ystod y rhyfel neu oes Victoria.
- Mae'r ddrama'n digwydd mewn amser hud (felly, hyd yn oed os bydd yn teimlo fel misoedd neu wythnosau lawer, pan ddewch chi adre'n ôl, does dim amser wedi mynd heibio).
- Mae amser yn mynd tuag at yn ôl, felly rydyn ni'n cychwyn ar y diwedd ac mae'r golygfeydd yn mynd tuag at yn ôl mewn amser.

**Dewiswch un o'ch cymeriadau a rhai o'ch hoff ffeithiau amdano. Dewiswch y fframwaith amser gorau i'ch stori ddigwydd ynddo.**

**Wedyn rhowch gynnig ar fframwaith amser gwahanol i weld sut mae hynny'n newid eich drama.**

# Cyfuniadau Amser a Lle

Nawr rhowch gynnig ar roi eich dewis le gyda'ch dewis fframwaith amser, ond cofiwch feddwl sut a pham maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd..

TIP ARDDERCHOG: Os ydi'ch drama chi'n cymharu dwy wahanol oes mewn hanes, fe allech chi ddewis yr un lleoliad, ond dwy olygfa mewn gwhanol oesoedd mewn hanes, e.e. 1920 a 2020.

Neu fe allai eich drama ddigwydd drwy'r byd yn grwn ond yn ystod yr un cyfnod ac yn ystod yr un pnawn.



# Crynodeb

Peidiwch â meddwl bod rhaid i chi ddewis lle gwahanol i rywle rydych yn gyfarwydd iawn ag ef.

Os penderfynwch chi ar le sy'n fyd gwahanol, cofiwch ymorol bod y rheolau'n eglur.

Defnyddiwch eich dychymyg. Mae'r pethau mwya diflas yn y byd - bag ysgol neu glawdd – yn gallu troi'n rhywbeth gwirioneddol gyffrous a mynd â ni i le arall.

Cofiwch, allwch chi fynd i unrhyw le ar unrhyw adeg!

Os symudwch chi'n ôl ac ymlaen drwy amser, meddyliwch sut y gallwch chi wneud hyn yn ddramatig.

